Mae Action on Pre-eclampsia yn elusen a sefydlwyd yn y DU ym 1991. Rydym yn rhoi help a chymorth i fenywod sydd wedi dioddef cyneclampsia, eclampsia, Syndrom HELLP neu orbwysedd a achosir gan feichiogrwydd (PIH).

Sefydlwyd Action on Pre-eclampsia i roi cymorth a gwybodaeth i fenywod sydd wedi dioddef cyneclampsia. Ers hynny, er ein bod wedi datblygu fel sefydliad, nid yw'n gweledigaeth a'n nodau wedi newid.

Ein gweledigaeth yw dyfodol pan na fydd cyneclampsia yn fygythiad difrifol i iechyd a lles mamau a'u babanod yn y groth. Ein tasg yw atal neu leddfu problemau'n ymwneud â chyneclampsia trwy godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, ehangu gwybodaeth a sgiliau proffesiynol a darparu cymorth uniongyrchol a pharhaus i deuluoedd sy'n cael eu heffeithio ganddo.

Ein nod yw addysgu, hysbysu a chynghori'r cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol ynghylch mynychder, natur a pheryglon cyneclampsia. Rydym yn ymgyrchu am fwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r clefyd a chamau i wella'r dulliau o'i ddarganfod a'i drin. Rydym yn cynorthwyo menywod sy'n cael eu heffeithio a'u teuluoedd, gan hyrwyddo gwaith ymchwil i achosion y clefyd a thechnegau sgrinio a dulliau trin priodol.

Rydym yn darparu gwybodaeth am gyneclampsia i fenywod beichiog, teuluoedd sy'n cael eu heffeithio a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â darparu gofal mamolaeth. Rydym yn darparu addysg broffesiynol am gyneclampsia ac yn trefnu rhaglen barhaus o gynadleddau a diwrnodau astudio. Mae gennym linell gymorth genedlaethol (+208 427 4217), rhwydwaith o gyfeillion lleol a gallwn gynnig y cyfle i fanteisio ar gyngor a gofal arbenigol.